

Cynnwys ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)

- 1. Ein cymeriad, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion nodedig**
 - 1.1 Gwerthoedd yr ysgol
 - 1.2 Nodweddion ein hysgol
 - 1.3 Prif ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac ymarfer
 - 1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb
- 2. Cyfrifoldebau**
 - 2.1 Corff Llywodraethu
 - 2.2 Uwch Dîm Arweinyddiaeth
 - 2.3 Staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu
- 3. Casglu gwybodaeth ac Ymgysylltu**
 - 3.1 Diben a phroses
 - 3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir
 - 3.3 Ymgysylltu
- 4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb**
- 5. Amcanion a Chynlluniau Gweithredu**
- 6. Cyhoeddi ac adrodd**
- 7. Monitro ac Adolygu**

Atodiadau

- At. 1 Amcanion Cydraddoldeb a Meysydd Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
- At. 2 Cynllun Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys gweithredu corfforaethol ar gyfer Addysg / ysgolion**
- At. 3 Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu Ychwanegol yr Ysgol**
- At. 4 Cynllun Mynediad I'r Ysgol
- At. 5 Siart Proses ar gyfer datblygu ac adolygu'r Polisi Cydraddoldeb**
- At. 6 Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Ychwanegiad 1 i At. 6 Cyhoeddiad CLILC – Risgiau Cydraddoldeb Cyffredin ym myd Addysg – Arweiniad ar gyfer asesu effaith mewn ysgolion.

1. Ein Cymeriad, blaenoriaethau ac Amcanion nodedig

1.1 Gwerthoedd yr ysgol

Yn YJB rydym yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl fyfyrwyr, staff, rhieni a gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol, ni waeth beth yw eu hanabledd, hil, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Rydym yn ceisio datblygu diwylliant o gynhwysiad ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol i deimlo'n falch o'u hunaniaeth a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Byddwn yn monitro cyflawniadau myfyrwyr ac yn defnyddio'r data hwn i gefnogi myfyrwyr, codi safonau a sicrhau addysg gynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwllo a stereoteipiau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yn Ysgol John Bright, credwn fod amrywiaeth yn gryfder y dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n dysgu ac yn addysgu yma, ac yn ymweld â'r ysgol.

1.2 Nodweddion ein hysgol

1. Mae Ysgol John Bright yn ysgol gymysg, gymunedol i fyfyrwyr 11-18 oed, wedi'i lleoli yn Llandudno, Conwy. Mae 1238 o fyfyrwyr yn mynychu'r ysgol, 210 ohonynt yn y chweched dosbarth. Yn 2003, roedd 1186 o fyfyrwyr ar gofrestr yr ysgol, 138 ohonynt yn y chweched dosbarth.
2. Mae myfyrwyr yn dod o dref Llandudno ond hefyd o Fae Penrhyn a Deganwy. Mae wardiau llewyrchus a difreintiedig o fewn dalgylch yr ysgol. Mae'r ysgol yn derbyn myfyrwyr o bob cefndir.
3. Mae deunaw y cant o'r myfyrwyr yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn oddeutu 3% uwchlaw cyfartaledd yr Awdurdod Unedol (AU) ac yn dilyn, yn fras, y cyfartaledd cenedlaethol. Mae oddeutu 15% o fyfyrwyr ar gofrestr anghenion addysgol arbennig (AAA) yr ysgol ac mae gan bron i 4% o fyfyrwyr ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.
4. Pan dderbynnir hwy i'r ysgol mae cyflawniadau myfyrwyr yn adlewyrchu ystod allu lawn. Mae gan yr ysgol uned sy'n darparu ar gyfer myfyrwyr gydag Anawsterau Dysgu Canolig (ADC). Mae lleiafrif bach iawn o fyfyrwyr yn dod o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Mae'r mwyafrif helaeth o fyfyrwyr yn dod o gartrefi lle Saesneg yw'r iaith gyntaf.
5. Yn 2004, symudodd yr ysgol i adeiladau newydd.

1.3 Prif ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac arfer

Mae'r ysgol hon yn cydnabod y gall gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol ddigwydd ac felly yn gweld angen am bolisi cyfleoedd cyfartal cadarnhaol ac effeithiol.

- byddwn yn hybu cysyniad cyfle cyfartal ym mhob rhan o'r sefydliad, ar gyfer oedolion o fewn y gymuned ysgol ac ar gyfer pob myfyriwr;
- ceisiwn ddatblygu dealltwriaeth o gydraddoldeb dynol a chyfleoedd cyfartal, a'u hybu;
- byddwn yn hybu perthnasau da rhwng aelodau o grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol; a
- byddwn yn galluogi myfyrwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad a'u perthynas ag eraill.

Yn ogystal â'r gweithrediadau penodol a nodir o dan y cynllun hwn, mae'r ysgol yn rhoi ei pholisi cyfle cyfartal ar waith bob dydd yn y dulliau canlynol.

Ein nod yw rhoi'r cyfle i bob un o'n myfyrwyr lwyddo, a chyrraedd y lefel cyrhaeddiad personol uchaf. I wneud hyn, byddwn yn:

- defnyddio data cyd-destunol i wella'n dulliau o gefnogi unigolion a grwpiau o fyfyrwyr;
- monitro data cyflawniad yn ôl yr amryfal nodweddion a ddiogelir a gweithredu pan geir hyd i fylchau;
- cymryd i ystyriaeth gyflawniad pob myfyriwr wrth gynllunio ar gyfer dysgu pellach a gosod targedau heriol;
- sicrhau mynediad cyfartal i bob myfyriwr a'u paratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas amrywiol;
- defnyddio deunyddiau sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn yr ysgol, y boblogaeth a'r gymuned leol o ran yr amryfal nodweddion a ddiogelir, heb stereoteipio;
- hybu agweddau a gwerthoedd sy'n herio ymddygiad neu ragfarn hiliol, ac ymddygiadau a rhagfarnau gwahaniaethol eraill;
- darparu cyfleoedd i fyfyrwyr werthfawrogi eu diwylliant eu hunain a dathlu amrywiaeth diwylliannau eraill;
- ceisio cynnwys pob rhiant yn addysg eu plentyn;
- annog trafodaeth yn y dosbarth a'r ystafell athrawon am faterion yn ymwneud â chydaddoldeb, sy'n adlewyrchu stereoteipiau a disgwyliadau cymdeithasol a'u heffaith ar ddysgu;

- cynnwys addysgu a gwaith dosbarth addas i'r yr holl ysgol, sy'n gynhwysfawr ac yn adlewyrchu ein myfyrwyr.

1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb i sefydlu cydraddoldeb i'n holl ddysgwyr, staff, aelodau eraill cymuned yr ysgol a defnyddwyr gwasanaeth, ni waeth beth yw eu hil, rhyw, anabled, ailbennu rhywedd, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, priodas a phartneriaeth sifil fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Diben ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)** yw cyflawni'r dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â 'nodweddion a ddiogelir', a gwreiddio tegwch a chydraddoldeb yng nghalon cymuned ein hysgol ac ym mhob agwedd ar gynlluniau a pholisïau ein hysgol.

Wrth bennu'r amcanion cydraddoldeb ar gyfer yr ysgol hon, byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i ddyletswyddau cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
2. Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; mae hyn yn golygu
 - a. dileu neu leihau anfanteision a ddiodefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno
 - b. cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl nad ydynt yn ei rhannu
 - c. annog pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogaeth gan bobl o'r math yn anghymesur o isel
3. Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir berthnasol a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu.

Pennir ein CCS ac Amcanion Cydraddoldeb yng ngoleuni'r canlynol:

- CCS Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac amcanion cydraddoldeb a nodwyd yn **Atodiad 1**;
- barn a fynegwyd gan randdeiliaid sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynllun;
- materion sy'n codi o ganlyniad i ddadansoddi ein data disgyblion e.e. cyrhaeddiad bechgyn o'u cymharu â merched a grwpiau eraill o ddysgwyr;

Bydd cyflwyno ein CCS yn cyfrannu at ein holl gamau gweithredu a'n hymrwymadau i:

- godi safonau;
- leihau'r bwlch cyrhaeddiad mewn deilliannau i blant a phobl ifanc;
- gwella deilliannau fel y'u disgrifir yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI);
- hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Amlinellir Amcanion Cydraddoldeb yr Ysgol yn **Adran 5 (t.13)**. Gweler hefyd **Atodiad 2 ac Atodiad 3**.

2. Cyfrifoldebau

2.1 Corff Llywodraethu

Mae'r corff llywodraethu wedi nodi ei ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y cynllun hwn, a bydd yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr ysgol yn gwbl gynhwysol i ddisgyblion, ac yn ymateb i'w hanghenion, yn seiliedig ar yr amryfal nodweddion a ddiogelir. Mae'r corff llywodraethu yn:

- ceisio sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl wrth iddynt wneud cais am swyddi yn ein hysgol;
- cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi mynediad i bobl ag anableddau, a hefyd yn ymdrechu i wneud cyfathrebu mor gynhwysol â phosibl i rieni, gofawyr a disgyblion
- sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw blentyn pan fydd yn ein hysgol

Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd adrodd, bydd y corff llywodraethu'n adrodd ar gynnydd y CCS bob blwyddyn, fel rhan o'I Adroddiad Blynyddol I rieni.

2.2 Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)

Mae'r UDA yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn dileu gwahaniaethu drwy:

- roi CCS yr ysgol ar waith, gyda chefnogaeth y Corff Llywodraethu;
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y ddeddf ac wedi'u hysbysu'n llawn am CCS ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol;

- sicrhau bod yr holl baneli apwyntiadau'n ystyried y cynllun hwn, fel na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un o ran cyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant;
- hyrwyddo egwyddor cyfle cyfartal wrth ddatblygu'r cwricwlwm, a hyrwyddo parch at bobl eraill a chyfle cyfartal i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol;
- trin holl achosion triniaeth annheg ac unrhyw achosion o fwlio neu wahaniaethu, gan gynnwys digwyddiadau hiliol, yn ôl polisiau'r Awdurdod a'r ysgol.

2.3 Staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu

Mae'r ysgol yn ystyried cydraddoldeb i bawb yn gyfrifoldeb i bawb. Mae pob aelod o staff yn cyfrannu at sicrhau bod ein hysgol yn gymuned deg, gyfiawn a chydlynol drwy:

- sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu trin yn deg, yn gyfartal a chyda pharch, a bod yn ymwybodol o CCS yr ysgol;
- ymdrechu i ddarparu deunydd a fydd yn cyfleu delweddau cadarnhaol sy'n seiliedig ar nodweddion a ddiogelir ac yn herio delweddau ystrydebol;
- herio unrhyw achosion o ragfarn yn erbyn gwahanol grwpiau a ddiogelir, gan gynnwys hiliaeth, homoffobia neu ragfarn yn erbyn myfyrwyr anabl, a chofnodi unrhyw ddigwyddiadau difrifol fel y rhagnodir ym mholisiau'r ALL a'r ysgol e.e. rhoi gwybod am ddigwyddiadau hiliol;
- cefnogi gwaith staff atodol a'u hannog i ymyrryd mewn ffordd gadarnhaol yn erbyn digwyddiadau gwahaniaethol.

3. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

3.1 Diben a phroses

Mae casglu gwybodaeth yn hanfodol i'n cefnogi wrth benderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd i wella cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yng nghymuned yr ysgol. Yn ddiweddarach, mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i adolygu ein perfformiad, felly rhaid iddi fod yn ddigon manwl i'n galluogi i fesur sut rydym yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i wneud asesiad effaith manwl gywir a nodi pa rai o amcanion yr ysgol a gyflawnwyd, a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well.

Mae ymgysylltu'n seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd am gynrychiolaeth grwpiau gwahanol. Ceisiwn wneud hyn mor drylwyr â phosibl tra'n cydnabod materion sensitifrwydd o ran y gwahanol nodweddion a ddiogelir. Cymerwn gamau penodol i sicrhau bod plant a

phobl ifanc anabl, rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn unol â'u hawl. Mae'r cynnydd hwn yn bwysig er mwyn gallu deall holl amrywiaeth anghenion cymuned yr ysgol.

3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir

Mae'r amrywiaeth eang o wybodaeth a gesglir i gefnogi ein cynllunio a'r camau a gymerir i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yn cynnwys y canlynol:

- dadansoddiad o ymateb disgyblion, rhieni/gofalwyr, staff, llywodraethwyr a grwpiau cymunedol ar ôl dosbarthu holiadur i bennu materion cydraddoldeb. Nid yw cwestiynau'r holiadur yn amlygu nodweddion a ddiogelir penodol, ond yn hytrach yn ceisio barn gyffredinol rhanddeiliaid (gofynnir i'r sawl sy'n ymateb lenwi holiadur monitro cydraddoldeb er mwyn ein galluogi i ddadansoddi adborth sy'n briodol i wahanol grwpiau a ddiogelir);
- adnabyddiaeth o'r plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr, staff a mynychwyr eraill o'r ysgol sy'n cynrychioli'r gwahanol nodweddion a ddiogelir, os yw'n bosibl ac yn briodol. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu a monitro'r cynllun. Gwneir pob ymdrech, gyda gofal a sensitifrwydd, i gasglu gwybodaeth gywir a bodloni gofynion diogelu data, yn ogystal â'n dyletswydd i sicrhau gwybodaeth fanwl gywir yn ymwneud ag ethnigrwydd a mamiaith;
- cyrhaeddiad disgyblion a data cynnydd sy'n ymwneud â grwpiau gwahanol;
- gweithredu i ganfod barn plant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi eu cyfraniad;
- gwybodaeth am sut mae grwpiau gwahanol yn cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan ac yn gwneud dewisiadau rhwng dewisiadau o bynciau;
- dewisiadau pob grŵp ym maes chwaraeon a gweithgareddau;
- defnydd a wneir o weithgareddau cyfoethogi fesul grŵp;
- dadansoddiad o ddata gwaharddiadau fesul grŵp;
- cofnodion sy'n ymwneud â bwlio ac aflonyddu ar sail mater cydraddoldeb;
- data am recriwtio, datblygu a chadw gweithwyr;
- canlyniadau gweithgareddau sy'n hyrwyddo ymgysylltu cymunedol a chydlyniant cymunedol;
- canlyniadau camau a gymerwyd i sicrhau cyfranogiad rhieni ac eraill y nodwyd eu bod yn amharod i ymgysylltu.

3.3 Ymgysylltu

Mae'r ysgol yn cynnwys **rhanddeiliaid**, gan gynnwys plant a phobl ifanc, staff, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a defnyddwyr yr ysgol yn ei holl ddyletswyddau cydraddoldeb. Cymerwn I ystyriaeth ddulliau cyfathrebu o ddewis y sawl rydym yn ymgynghori â hwy e.e. deunydd a gyfieithwyd neu gyfleusterau cyfieithu ar y pryd i bobl anabl neu'r sawl y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt neu sydd newydd gyrraedd y wlad hon.

Rhoddir ystyriaeth fanwl i farn rhanddeiliaid a grwpiau eraill sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb wrth bennu blaenoriaethau drwy wrando ar fyfyrwyr ac ymgynghori â staff, rhieni a llywodraethwyr.

4. Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Mae aseiad effaith yn ymwneud ag adolygu'r holl gynlluniau a pholisiau presennol ac arfaethedig i'n cynorthwyo i weithredu dros hyrwyddo cydraddoldeb ac i sicrhau nad oes neb yn dioddef anfantais oherwydd gwahaniaethu wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol. Mae aseidiadau effaith yn broses barhaus sy'n sicrhau bod cynlluniau a pholisiau'r ysgol yn cael eu datblygu mewn modd sy'n fwyfwy cynhwysol a theg.

Er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau penodol y Ddeddf, bydd yr ysgol yn parhau i asesu effaith pob polisi a chynllun newydd (gan gynnwys penderfyniadau cyllidol) cyn eu rhoi ar waith. Byddwn hefyd yn asesu effaith ein polisiau a'n cynlluniau presennol pan gânt eu hadolygu. O ganlyniad, mae aseidiadau effaith yn cael eu hymgorffori yng nghynllun yr ysgol i adolygu a diwygio pob polisi.

Bydd yr aseidiadau effaith a gyflawnwyd yn dylanwadu ar newidiadau i bolisi a'r adolygiad o'r CCS ei hun.

5. Amcanion a Chynlluniau Gweithredu

Yn **ychwanegol at** Amcanion Cydraddoldeb cytunedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt eisoes yn gorfforaethol (gweler Atodiad 1 a 2), ein Hamcanion Cydraddoldeb dewisol yw:

1. Bod pob myfyriwr yn cyrraedd eu potensial gan ddefnyddio grwpiau o ddysgwyr FFT I adnabod tangyflawniad.

Mae gennym gynlluniau gweithredu sy'n cynnwys pob nodwedd a ddiogelir berthnasol (Atodiad 2). Yma ceir disgrifiad o sut rydym yn mynd ati i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

Mae'r cynlluniau gweithredu'n dangos:

- amcanion a chymau gweithredu penodol;
- effaith ddisgwyliedig a dangosyddion cyrhaeddiad (meini prawf llwyddiant);
- graddfeydd amser eglur;
- gan bwy mae'r cyfrifoldeb arweiniol;
- goblygiadau o ran adnoddau;
- dyddiadau penodedig ar gyfer asesiad effaith ac adolygiad.

Mae'r ysgol yn gwerthuso effeithiolrwydd y CCS yn rheolaidd, drwy gyfrwng y corff llywodraethu a chyda chymorth Estyn yn ystod arolwg ysgol.

6. Cyhoeddi ac adrodd yn ôl

Mae'r ysgol yn darparu copi o'I CCS a'i chynllun gweithredu ar gyfer cyflawni ei hamcanion cydraddoldeb mewn sawl fformat ac yn sicrhau ei fod ar gael i rieni/gofalwyr ac eraill, gan gynnwys y sawl sy'n amharod i ymgysylltu. Bydd prosiectws yr ysgol yn cyfeirio at y CCS a'r gwerthoedd sy'n sail iddo.

Bydd yr ysgol yn adrodd yn ôl bob blwyddyn am y cynnydd a wnaed ar y cynlluniau gweithredu ac effaith y CCS ei hun ar ethos ac arferion yr ysgol. Gwneir hyn fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.

Unig bwrpas y data a gasglwyd fydd dadansoddi tueddiadau nodweddion a ddiogelir o ran perfformiad, ymgymryd a bodlonrwydd gyda gwasanaethau a gynigir gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei chadw ar wahân i wybodaeth bersonol sy'n dangos pwy yw'r unigolyn. Er mwyn diogelu'r unigolyn, pan gyhoeddir gwybodaeth am dueddiadau, ni chynhwysir unrhyw ganlyniadau sy'n cynnwys llai na 5 unigolyn.

7. Monitro ac Adolygu

Yn rhan o'n cyfrifoldeb i fonitro'r CCS, rydym yn ymrwmo i:

- ailedrych ar yr wybodaeth a'r data a ddefnyddir i adnabod blaenoriaethau'r CCS a'r cynlluniau gweithredu, a'i dadansoddi. Mae hwn yn ymgorffori defnydd a wneir o'r trosolwg o ganlyniadau;
- defnyddio'r asesiadau effaith i sicrhau bod y camau a gymerir yn cael effaith positif ar draws y nodweddion a ddiogelir, bod hyrwyddo cydraddoldeb yn ganolog i gynllunio'r ysgol a bod gwahaniaethu'n cael ei ddileu'n effeithiol.

Mae adolygu'r CCS yn cyfeirio'i ddiwygiad, ac yn gymorth i greu blaenoriaethau a chynlluniau gweithredu newydd. Mae'r broses hon yn parhau i:

- ddenu cyfranogiad ystod lawn o randdeiliaid;
- fod yn seiliedig ar dystiolaeth – gan ddefnyddio gwybodaeth a data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan yr ysgol;
- ddefnyddio'r dystiolaeth i gynnal asesiadau effaith sy'n cyfeirio blaenoriaethau.

Byddwn yn cynnal adolygiad llawn o'n CCS erbyn mis Medi 2016.

Atodiadau

Atodiad 1	Amcanion Cydraddoldeb a Meysydd Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
Atodiad 2	Cynllun Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn ymgorffori gweithrediadau corfforaethol ar gyfer Addysg ac ysgolion.
Atodiad 3	Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu Ychwanegol yr Ysgol
Atodiad 4	Cynllun Mynediad I'r Ysgol (defnyddier y cynllun cyfredol ar gyfer 2010-2013)

Atodiad 5 Siart Proses ar gyfer datblygu ac adolygu'r Polisi Cydraddoldeb

Atodiad 6 Canllaw Asesu Effaith ar Gydraddoldeb

Atodiad 1 | Atodiad 6 Cyhoeddiad CLILC "Risgiau, ynglŷn â Chydraddoldeb, sy'n gyffredin i bawb ym myd Addysg - Adnodd asesu effeithiau ar gydraddoldeb yn yr ysgolion"

Amcanion Cydraddoldeb a Meysydd Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

1. Lleihau anghydraddoldeb o ran Iechyd

Maes Gweithredu 1.1	Bydd nifer y bobl, mewn grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol, sy'n dewis ffordd iach o fyw yn cynyddu
Maes Gweithredu 1.3	Mae gofal pobl hŷn yn gwella, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch
Maes Gweithredu 1.5	Mae pobl Drawsrywiol a Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol yn cael eu trin gydag urddas a pharch pan maent yn derbyn gofal
Maes Gweithredu 1.6	Mae anghenion pobl gydag Anableddau Dysgu neu broblemau iechyd meddwl yn cael eu deall yn well

2. Lleihau deilliannau anghyfartal o ran Addysg I uchafu Potensial unigolion

Maes Gweithredu 2.1	Bod y bwch cyrhaeddiad addysgiadol rhwng gwahanol grwpiau yn lleihau
Maes Gweithredu 2.2	Bod bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth mewn Ysgolion yn lleihau

3. Lleihau anghydraddoldeb o ran Cyflogaeth a Thâl

Maes Gweithredu 3.1	Bydd anghydraddoldebau o ran prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu yn cael eu canfod a'u datrys
Maes Gweithredu 3.2	Bod unrhyw fylchau mewn tâl rhwng gwahanol nodweddion a ddiogelir yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw

4. Lleihau anghydraddoldeb o ran **Diogelwch**

Maes Gweithredu 4.1	Bod mwy o bobl yn rhoi gwybod am drosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb a bod camau'n cael eu cymryd i leihau trosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb
Maes Gweithredu 4.2	Bod mwy o bobl yn rhoi gwybod am achosion o gam-drin domestig a bod camau'n cael eu cymryd i leihau cam-drin domestig

5. Lleihau anghydraddoldeb o ran **Cynrychiolaeth a Llais**

Maes Gweithredu 5.1	Bod cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn cynrychioli'n llawnach y cymunedau hynny a wasanaethant
Maes Gweithredu 5.2	Bod ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus ac unigolion sy'n cynrychioli pobl o bob grŵp a ddiogelir

6. Lleihau anghydraddoldeb o ran cael **Mynediad I wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd**

Maes Gweithredu 6.1	Bod mynediad i wybodaeth a chyfathrebu a phrofiad y cwsmer yn gwella
Maes Gweithredu 6.2	Bod mynediad corfforol i wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn gwella

ATODIAD 3

Ysgol John Bright

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2014-2015

Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu

<p>Blaenoriaeth Un: I leihau Bylchau mewn cyrhaeddiad a phresenoldeb rhwng myfyrwyr o grwpiau a ddiogelir</p> <p>Dyletswyddau Cyffredinol: Gwella Cyfle Cyfartal</p> <p>Dyletswyddau Penodol: Asesu Effaith; Gwybodaeth am Gydraddoldeb; Amcanion Cydraddoldeb</p> <p>Nodweddion a Ddiogelir: Rhyw, Hil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Anabled</p>		<p>Ffynhonnell: (ymchwil/data/ymgysylltiad/statudol) Adroddiad Hunanwerthusiad yr Ysgol a ffynhonnell dystiolaeth gysylltiedig Set Data Craidd Cymru Gyfan Data am gyrhaeddiad yn yr Ysgol</p>	
<p>Targedau: I ddefnyddio ein data ein hunain a data ac ymchwil arall o ffynonellau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn cael darlun llawn o wahaniaethau yng nghyflawniad gwahanol nodweddion fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. I wella safon cyrhaeddiad pob dysgwr yn YJB I wella presenoldeb yn yr ysgol hyd at 95% drwy ffocysu ar bresenoldeb grwpiau gyda nodweddion a ddiogelir</p>			
<p>Meini Prawf Llwyddiant Mae llai o fwllch rhwng cyrhaeddiad bachgen a merch yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 Mae dystiolaeth ein bod ni wedi dadansoddi ac adnabod unrhyw fylchau eraill mewn cyrhaeddiad o ran grwpiau eraill o fyfyrwyr sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae presenoldeb y grwpiau o ddysgwyr hynny â phroblemau presenoldeb yn gwella.</p>			
<p>Tasgau a Gynlluniwyd yn Strategol: Gweler CGY 2014-15 ar gyfer tasgau a enwyd yn benodol</p>	<p>Ar Fynd</p>	<p>Person(au) sy'n Arwain</p>	<p>Graddfa Amser</p>

<p>Blaenoriaeth Un: Datblygu ansawdd a'r defnydd a wneir o'n Monitro Cydraddoldeb a Chasglu Data</p> <p>Dyletswyddau Cyffredinol: Meithrin Perthnasau Da; Cyfle Cyfartal</p> <p>Dyletswyddau Penodol: Asesu Effaith; Amcanion Cydraddoldeb; Gwybodaeth am Gydraddoldeb; Ymgysylltiad; Mynediad i Wybodaeth</p> <p>Nodweddion a Ddiogelir: Rhyw, Hil,</p>		<p>Ffynhonnell: (ymchwil/data/ymgysylltiad/statudol) Deddf Cydraddoldeb 2010</p>	
--	--	--	--

Tueddfryd Rhywiol, Trawsrywiol, Crefydd neu Gred, Anabledd, Beichiogrwydd a Mamolaeth			
Targedau: <ol style="list-style-type: none"> 1. I ehangu'r monitro a wnawn o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â hil er mwyn cofnodi a rhoi gwybod am ystod ehangach o fwlio gan gynnwys gwrth-anabledd, homoffobig a thrawsffobig, rhywiaethol a bwlio oherwydd crefydd neu gred. 2. I ddatblygu dealltwriaeth well o'r amrywiaeth o fewn cymuned ein hysgol, o ran myfyrwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr. 3. I ddefnyddio'r data hyn i adolygu effeithiolrwydd polisiâu'r ysgol (e.e. gwrth-fwlio, addysgu a dysgu) ar draws y nodweddion a ddiogelir, gyda chefnogaeth grwpiau priodol o fyfyrwyr, rhieni, staff, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill. 			
Meini Prawf Llwyddiant System monitro Digwyddiadau a Materion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ar draws yr ysgol wedi ei diweddarau i adlewyrchu nodweddion a ddiogelir. Data Cydraddoldeb yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi'n rheolaidd, ac adroddir yn ôl yn gyson i'r grwpiau priodol, at bwrpas pennu amcanion Y Cynllun Gwella Ysgol yn defnyddio data cydraddoldeb gwell i bennu camau gweithredu			
Tasgau a Gynlluniwyd yn Strategol: Gweler CGY 2014-15 ar gyfer tasgau a nodwyd yn benodol yn ymwneud â chodi safonau monitro cydraddoldeb	Ar Fynd	Person(au) sy'n Arwain	Graddfa Amser

ATODIAD 4

Cynllun Hygyrchedd Ysgol John Bright 2014-2015

Diffiniad o Anabledd

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DDA) yn diffinio anabledd fel a ganlyn:

"Mae gan berson anabledd os oes ganddo/ganddi nam corfforol neu feddyliol ac iddo effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu/gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol arferol".

Amcan Allweddol

- ✚ I leihau a dileu unrhyw beth sy'n rhwystro mynediad i'r cwricwlwm.
- ✚ Bod myfyrwyr, darpar fyfyrwyr ac oedolion anabl yn gallu cyfranogi'n llawn yng nghymuned yr ysgol.

Egwyddorion

Lluniwyd y cynllun yn unol â'r ddyletswydd gynllunio yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a ddiwygiwyd gan Ddeddf AAA ac Anabledd 2001 (DAAAA). Mae'n defnyddio'r arweiniad a geir yn "Hygyrchedd Ysgolion: Cynllunio ar gyfer cynyddu mynediad i ysgolion i ddisgyblion ag anableddau", a gyhoeddwyd gan yr AAS yng Ngorffennaf 2002.

Mae cydymffurfriad â'r DGA yn gyson â nodau'r ysgol a'i pholisi cyfle cyfartal, a gweithrediad polisi AAA yr ysgol;

Mae'r ysgol yn cydnabod ei dyletswydd dan y DGA (fel y'i diwygiwyd gan y DAAAA):

- ✚ i beidio â gwahaniaethu yn erbyn myfyrwyr anabl wrth dderbyn a gwahardd, a darparu addysg a gwasanaethau cysylltiol
- ✚ i beidio â thrin myfyrwyr anabl yn llai ffafriol
- ✚ i gymryd camau rhesymol i osgoi rhoi myfyrwyr anabl dan anfantais sylweddol
- ✚ i gyhoeddi Cynllun Hygyrchedd.

Bydd llywodraethwyr a staff yn ystyried Cod Ymarfer y CHA (2002) wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Mae'r ysgol yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwybodaeth rhieni am anabledd eu plant a'i heffaith ar ei allu/gallu i gyflawni gweithgareddau arferol, ac yn parchu hawl y rhieni a'r plentyn i gyfrinachedd.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i bob myfyriwr, wedi'i wahaniaethu a'i gymhwyso i gyflawni anghenion myfyrwyr unigol a'u dulliau dysgu dewisol, drwy:

- ✚ osod heriau dysgu priodol
- ✚ ymateb i anghenion dysgu amrywiol myfyrwyr
- ✚ goresgyn unrhyw beth a allai rhwystro myfyrwyr unigol a grwpiau o fyfyrwyr rhag dysgu a chael eu hasesu.
- ✚ cadarnhau egwyddorion allweddol Fframwaith y Cwricwlwm Cenedlaethol, sy'n tanatgu datblygiad cwricwlwm mwy cynhwysol.

Mae Ysgol John Bright wedi penderfynu mynd i'r afael â'r pwyntiau canlynol fel rhan o'i Chynllun Gwella Ysgol, er mwyn cyflawni'r amcan allweddol:

Trosglwyddo'r cwricwlwm

- ✚ Mae staff yr ysgol yn derbyn hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm ar gael i bob myfyriwr, ac yn ymwybodol o bwysigrwydd hynny.
- ✚ Bydd yr ysgol yn parhau i geisio a dilyn cyngor gwasanaethau'r AALI, megis ymgynghorwyr athrawon arbenigol ac arolygwyr/ymgynghorwyr AAA, a gweithwyr iechyd proffesiynol o'r Ymddiriedolaethau GIG lleol.

Amgylchedd ffisegol

Mae adeilad cymharol newydd ar y safle, sy'n cynnwys toiled hygyrch ar bob llawr ac arwyddion sy'n cydymffurfio â rheoliadau'r DGA. Mae lifft yn caniatáu mynediad didrafferth i bob llawr, gan olygu bod yr holl safle yn hawdd ei gyrraedd.

Bydd yr ysgol yn rhoi sylw i anghenion myfyrwyr a defnyddwyr eraill gydag anawsterau corfforol a nam ar y synhwyrau wrth gynllunio a rhoi ar waith welliannau i'r safle a'r adeiladau, megis gwell fynediad, goleuo, triniaeth acwstig a chynlluniau lliw, a chyfleusterau a ffitiadau mwy hygyrch.

Darparu gwybodaeth ar fformatau eraill

Mae'r ysgol yn ymwybodol o wasanaethau lleol, gan gynnwys y rhai a ddarperir drwy'r AALI, y gellir eu defnyddio er mwyn darparu gwybodaeth ar fformatau eraill pan fydd angen neu pan ofynnir amdano. Gellir gofyn i'r Pennaeth am gopi o'r cynllun ar y fformatau canlynol:- e-bost, print mwy. Gellir trefnu i dderbyn yr wybodaeth ar fformatau eraill.

Adolygir y cynllun hwn yn 2015 neu'n dilyn gwaith adeiladu sylweddol.

ATODIAD 5

Ffurio gweithgor cydraddoldeb.
Aelodau I ddod o bob rhan o
gymuned yr ysgol, gan gynnwys:

Staff ysgol (gan gynnwys
llywodraethwyr a'r TAY)

Myfyrwyr/disgyblion

Rhieni a gofalwyr

Y gymuned ysgol ehangach

Llunio amserlen ar gyfer datblygu'r polisi gan nodi dyddiadau cyfarfodydd

Cynnig dyddiad ar gyfer cyflwyniad ffurfiol a'i fabwysiadu gan y corff llywodraethol

Ystyried arweiniad lleol a chenedlaethol

Tasgau Allweddol (gyda therfynau amser)

Siart proses ar gyfer datblygu ac adolygu'r Polisi Cydraddoldeb & Cynllun Gweithredu

PARHAUS – monitro cynllun gweithredu a chasglu tystiolaeth ar gyfer deilliannau

Cyflwyno'r polisi a'r cynllun gweithredu i'r llywodraethwyr/llywodraethwyr yn ei gadarnhau. Pennu dyddiad adolygu'r Cynllun Gweithredu

Sicrhau bod y polisi a'r cynllun gweithredu yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol i gymuned yr ysgol gyfan. Ystyried cynhyrchu fersiynau cryno ar gyfer myfyrwyr/myfyrwyr a rhieni/gofalwyr

Cynllun Gweithredu

Polisi Cydraddoldeb

Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC)

Awgrym o sut i gyflawni Asesiadau Effaith Cydraddoldeb mewn ysgolion.

Beth yw Asesiad Effaith Cydraddoldeb?

Mae AEC yn ddull bwriadus o ddadansoddi effaith polisi, ymarfer neu broject ar grwpiau a ddiogelir i'r un graddau neu ystyried a allai gael effaith anghymesur ar un neu fwy o grwpiau penodol.

Dylai AECau ein helpu i sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn unigolion neu grwpiau penodol a'n bod ni'n hybu ein dyletswyddau positif mewn perthynas â chydaddoldeb. Mae'n ffordd o sicrhau ein bod yn ateb gofynion amrywiol bob myfyriwr ac aelod o'r staff.

Dylai AECau helpu i sicrhau bod amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiad yn rhan annatod o bob agwedd o fywyd yr ysgol.

Nid yw hyn yn golygu bod angen cyflawni AECau ar bob polisi ac arfer ar unwaith. Mae'n broses o feddwl y gellir ei rhoi ar waith pan adolygir polisïau fel rhan o'r cylch adolygu polisïau. Gellir hefyd ystyried defnyddio AECau ar gyfer pob polisi newydd a phrojectau penodol e.e. defnyddio lle chwarae'r ysgol.

Nid yw'n rheswm dros fwy o waith papur. Mae'n ddull synhwyrol o feddwl am effaith polisïau a chmau gweithredu ar: hil, rhyw, aibennu rhywedd, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth.

Gallai'r effaith fod yn un cadarnhaol, niwtral neu negyddol.

Os na ellir cyfiawnhau'r effaith ar wahanol grwpiau, pa atebion y gallwn eu canfod i wella'r sefyllfa hon?

Cwestiynau allweddol:

Beth yw nodau'r polisi neu arfer?

Amlinellu prif nodau ac amcanion y polisi neu'r arfer?

Ystyried deilliannau presennol data, gwybodaeth ac ymgynghoriadau?

Ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud â chaffaeliad a phartneriaeth?

Asesu'r effaith posibl?

Ystyried unrhyw effaith anffafriol neu anghyfreithlon?

Penderfynu pa gamau i'w cymryd?

Creu cynllun gweithredu?

Gwneud trefniadau i fonitro ac adolygu'r polisi neu arfer?

Cyhoeddi canlyniadau'r asesiad?

Beth yw'r deilliannau penodol y gobeithiwch amdanynt?

Pwy ddylai elwa o'r polisi neu arfer hwn? (e.e. staff cyfan/myfyrwyr?)

A allwch weld unrhyw effeithiau anffafriol/negyddol posibl ar unigolion neu grwpiau penodol wrth roi'r polisi, arfer neu broject ar waith, ar sail eu tarddiad ethnig, cefndir diwylliannol, ffydd, anabled, AAA, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran ac unrhyw feini prawf eraill (er enghraifft SIY, ymofynwyr noddfa)?

Adnabod pwy a sut?

A oes unrhyw effeithiau positif? Ar bwy a sut? Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn? Gall hyn gynnwys data, e.e. data cyflawniad.

Os credwch y gallai'r effaith fod yn un negyddol ar unigolion neu grwpiau penodol mae'n bwysig casglu data a gwybodaeth perthnasol a dibynadwy at ei gilydd.

Pwy allech chi eu cynnwys yn eich adolygiad polisi/arfer neu broject arfaethedig a fydd yn eich helpu i adnabod unrhyw effaith gwahaniaethol?

Bydd cynnwys y plant, pobl ifanc, staff ac aelodau o'r gymuned a allai gael eu heffeithio gan eich polisi, arfer neu broject yn creu'r cyfle gorau i adnabod effaith, ymchwilio i ddatrysiadau a chefnogi'r dasg o roi'r newidiadau ar waith.

Hyd yn oed os ydych wedi ystyried effeithiau polisi neu weithred ac wedi cynnwys pobl eraill yn y broses honno, mae'n bosibl na fyddwch wedi canfod effaith wahaniaethol debygol ar unigolion neu grwpiau penodol. Mae'n digwydd weithiau. Yr hyn sy'n bwysig yw cadw hynny mewn cof yn ystod y broses o fonitro ac adolygu ac i fod yn hyblyg er mwyn gallu ymateb i wybodaeth newydd.